Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Department for Children, Education, Lifelong Learning and Skills

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Rhagori: Llawlyfr gwerthuso ar gyfer ysgolion

(Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru)

Gwybodaeth

Dogfen wybodaeth Rhif: 016/2007
Dyddiad cyhoeddi: Medi 2007

Rhagori: Llawlyfr gwerthuso ar gyfer ysgolion

Cynulleidfa

Ymarferwyr, Awdurdodau Addysg Lleol, Awdurdodau Lleol; a'r holl bartneriaid sy'n ymwneud ag addysg, dysgu gydol oes a sgiliau.

Trosolwg

Datblygwyd y llawlyfr hwn gan Arad Consulting, ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, i gynnig cyngor a chanllawiau ar ffyrdd o fesur effaith Rhagori ar ddisgyblion.

Camau i'w cymryd

Nid oes angen unrhyw weithredu.

Rhagor o wybodaeth

Paul Morgan,
Arweinydd y Prosiect Rhagori,
Is-adran Perfformiad a Gwelliant,
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau,
Llywodraeth Cynulliad Cymru,
3ydd Llawr, Parc Cathays.
Caerdydd, CF10 3NQ.
Ffôn: 029 2082 6020
Ffacs: 029 2082 6016
E-bost: RAISE@cymru.gsi.gov.uk

Copïau ychwanegol

Gellir cael copïau ychwanegol gan:
Richard Matthews, gweler y cyfeiriad uchod
Ffôn: 029 2082 6011
Ffacs: 029 2082 6016
E-bost: RAISE@cymru.gsi.gov.uk

G/062/07-08
ISBN 978 0 7504 4260 2

Medi
CMK-22-07-212

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2007

Cynnwys

		Tudalen
1	Cyflwyniad	3
1.1	Diben y llawlyfr hwn	3
1.2	Beth yw ystyr gwerthuso i ni?	3
1.3	Pam gwerthuso?	4
2	Y Broses o Werthuso Gam wrth Gam	6
2.1	Cam 1: Nodi'r hyn sydd o dan sylw	6
2.1.1	Pryd i nodi'r hyn sydd o dan sylw	6
2.1.2	Sut mae datblygu amcanion clir?	7
2.2	Cam 2: Bod yn eglur ynglŷn â'r hyn yr ydych chi am ei gyflawni: Dynodi dangosyddion priodol	14
2.2.1	Pam creu dangosyddion perfformiad?	14
2.2.2	Beth yw dangosyddion?	14
2.2.3	Sut mae gosod dangosyddion?	15
2.2.4	Heriau wrth osod dangosyddion	15
2.2.5	Gosod Dangosyddion yn Ymarferol - Dangosyddion posibl ar gyfer prosiectau Rhagori	16
2.3	Cam 3: Casglu gwybodaeth hunanwerthuso	19
2.3.1	Cipio tystiolaeth o ganlyniadau meddal	21
2.3.2	Y Broses Werthuso: Offer y gallech chi ddymuno eu defnyddio	21
2.4	Cam 4: Dehongli'r data a dod i gasgliadau	31
2.4.1	Newid data crai yn ddata cyfunol neu drosolygon	31
2.4.2	Gwirio a Dadansoddi'r Data	32
2.4.3	Dehongli'r data	33
2.4.4	Dod i Gasgliadau	33
2.4.5	Adrodd a rhannu'r canlyniadau	34
2.5	Crynodeb o'r Llawlyfr	38

Rhagori: Llawlyfr gwerthuso ar gyfer ysgolion

Medi 2007

Dogfen Wybodaeth Rhif 016/2007

Crynodeb

Rhaglen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw Rhagori, sydd â'r nod o godi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigol mewn ysgolion yng Nghymru. Diben cyllid Rhagori yw cynnig cymorth a anelir yn arbennig at ddisgyblion sydd o dan anfantais a goresgyn y cysylltiad rhwng anfantais a diffyg cyrhaeddiad.

Diben unrhyw werthuso yw helpu rheolwyr prosiect i ddeall a dysgu o'r modd y gweithredir eu prosiect, a chynnwys y ddealltwriaeth honno yn eu gwaith yn y dyfodol. Yng nghyd-destun Rhagori, mae modd hefyd i werthuso wneud cyfraniad gwerthfawr o ran lledaenu arferion llwyddiannus a chael pobl i'w derbyn. Felly, gallai unrhyw dystiolaeth y byddwch yn ei chasglu wrth wneud eich hunanwerthuso fod o fudd hefyd i'ch cydweithwyr, gwerthuswyr allanol a gwneuthurwyr polisïau sy'n dymuno asesu llwyddiant rhaglenni Rhagori.

Nid gwyddor fanwl yw gwerthuso ac nid yw'r arweiniad hwn yn ceisio gosod rheolau pendant ar gyfer gwerthuso a gwneud adroddiadau ar Rhagori. Yn hytrach, mae'n cynnig argymhellion ac amrywiaeth o ddulliau a gweithdrefnau gwerthuso priodol y gallwch chi eu haddasu ar gyfer anghenion Rhagori yn eich ysgol chi. Lle bynnag yr ydych chi ar hyn o bryd gyda'ch prosiect a'i werthusiad, bydd yr arweiniad hwn yn gymorth i chi weld sut y byddai modd i chi wella eich gweithdrefnau gwerthuso.

1 Cyflwyniad

Rhaglen gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw Rhagori, sydd â'r nod o godi cyrhaeddiad a safonau addysgol unigol mewn ysgolion yng Nghymru. Diben cyllid Rhagori yw cynnig cymorth a anelir yn arbennig at ddisgyblion sydd o dan anfantais a goresgyn y cysylltiad rhwng anfantais a diffyg cyrhaeddiad.

Cyhoeddwyd y rhaglen ym mis Ebrill 2006 ac mae'r rhaglen Rhagori wedi dosbarthu cyfanswm o £14.6 miliwn i ysgolion yn 2006-2007, gyda'r un math o swm ar gael yn 2007-2008. Mae ysgolion cymwys ar hyd a lled Cymru wedi derbyn cyllid i gynnal amrywiaeth fawr o brosiectau gwahanol ac yn hyn o beth mae'r llawlyfr gwerthuso hwn yn cynnig awgrymiadau ynglŷn â dulliau o hunanwerthuso'r prosiectau. Nid yw'n ddeddfol - chi fydd y gorau am farnu'r hyn sy'n gweithio yn eich ysgol chi. Fodd bynnag, argymhellir eich bod bob tro:

1) yn cadarnhau'r modd y byddwch yn gwerthuso llwyddiant Rhagori yn eich ysgol;

2) yn gwneud y gwerthuso hwn trwy fonitro ac adolygu'n rheolaidd;

3) yn cynnwys amrywiaeth o fathau o dystiolaeth wrth hunanwerthuso.

1.1 Diben y llawlyfr hwn

Chi sydd yn y sefyllfa orau i farnu a yw rhywbeth yn gweithio wrth werthuso Rhagori yn eich ysgolion. Mae'r llawlyfr hwn yn disgrifio dulliau o fesur effaith Rhagori ar ddisgyblion yn eich ysgol.

1.2 Beth yw ystyr gwerthuso i ni?

Gwerthuso yw dadansoddi prosiect neu raglen er mwyn asesu a yw wedi llwyddo ai peidio, a pha wersi sydd i'w dysgu ar gyfer y dyfodol.

Mae'n debyg y byddwch chi eisoes yn gwylio hynt Rhagori, yn trafod llwyddiannau a phroblemau gyda chydweithwyr, yn ceisio addasu'r modd y mae'r prosiect yn gweithredu, sefydlu arferion da yn ogystal â chynllunio ar gyfer prosiectau yn y dyfodol. Os ydych chi'n gwneud hynny, rydych chi eisoes yn gwerthuso llwyddiant y rhaglen yn eich ysgol.

Y cam nesaf yw cynnal proses o werthuso mwy ffurfiol, a gwella ar effeithiolrwydd y gwylio a'r ystyried yr ydych yn eu gwneud ar hyn o bryd trwy:

- gasglu a chofnodi gwybodaeth berthnasol mewn modd cydlynus;
- dadansoddi'r wybodaeth honno;
- sicrhau bod canlyniadau'r dadansoddi ar gael i reolwyr a chydweithwyr ar ffurf briodol.

1.3 Pam gwerthuso?

Diben unrhyw werthuso yw helpu rheolwyr prosiect i ddeall a dysgu o'r modd y gweithredir eu prosiect, a chynnwys y ddealltwriaeth honno yn eu gwaith yn y dyfodol.

Nod unrhyw werthuso yn y pen draw yw gwella ansawdd prosiectau Rhagori, er mewn i'r prosiectau fod yn fwy o werth a mwy o fudd i ddisgyblion. Yng nghyd-destun Rhagori, mae modd hefyd i werthuso wneud cyfraniad gwerthfawr o ran lledaenu arferion llwyddiannus a chael pobl i'w derbyn. Felly, gallai unrhyw dystiolaeth y byddwch yn ei chasglu wrth wneud eich hunanwerthuso fod o fudd hefyd i'ch cydweithwyr, gwerthuswyr allanol a gwneuthurwyr polisïau sy'n dymuno asesu llwyddiant rhaglenni Rhagori.

Nodyn: Hunanwerthuso yn erbyn Gwerthuso allanol

Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng **gwerthuso eich prosiectau eich hunain** (hunanwerthuso), sydd o dan sylw yn y llawlyfr hwn, a **gwerthuso allanol**.

Yr hyn sydd o dan sylw yn bennaf yn y ddogfen hon yw'r broses o **werthuso eich prosiect(au) a gweithgaredd(au) Rhagori eich hunain**. Fodd bynnag, bydd **rhaglen Rhagori yn gyffredinol** ledled Cymru yn derbyn gwerthusiad allanol hefyd a gallai gwerthuswyr gysylltu â rhai ysgolion er mwyn iddynt ddarparu gwybodaeth i hysbysu'r adolygiad hwnnw.

Bydd y gwersi a ddysgir o'r gwerthuso allanol yn ymwneud â materion cyffredinol y rhaglen na fyddant o reidrwydd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r hyn sy'n digwydd yn eich prosiect(au) penodol chi. Mae'n debygol hefyd y bydd y gwersi a ddysgir trwy'r gwerthuso allanol yn rhy gyffredinol ac y byddant yn

digwydd yn rhy hwyr yn y rhaglen i fod o fudd i chi o ran deall yr hyn sy'n digwydd yn eich prosiect Rhagori chi eich hun. Yn hyn o beth, mae'n bwysig gwerthuso ar y ddwy lefel hyn.

Ni ddylech beidio â hunanwerthuso prosiectau oherwydd bod gwerthuso allanol yn digwydd hefyd ar y rhaglen yn gyffredinol.

Nid gwyddor fanwl yw gwerthuso ac nid yw'r arweiniad hwn yn ceisio gosod rheolau pendant ar gyfer gwerthuso a gwneud adroddiadau ar Rhagori. Yn hytrach, mae'n cynnig argymhellion ac amrywiaeth o ddulliau a gweithdrefnau gwerthuso priodol y gallwch chi eu haddasu ar gyfer anghenion Rhagori yn eich ysgol chi.

Lle bynnag yr ydych chi ar hyn o bryd gyda'ch prosiect a'i werthusiad, bydd yr arweiniad hwn yn gymorth i chi weld sut y byddai modd i chi wella eich gweithdrefnau gwerthuso. Yn yr adran nesaf, byddwn yn mynd trwy werthuso gam wrth gam ac yn cynnig enghreifftiau o'r amrywiaeth o dystiolaeth y gallech chi ei defnyddio.

2 Y Broses o Werthuso Gam wrth Gam

Mae'r arweiniad yn mynd trwy'r broses o werthuso gam wrth gam:

Cam	Wedi ei gwblhau?
Cam 1: Nodi'r hyn sydd o dan sylw	✔
Cam 2: Bod yn eglur ynglŷn â'r hyn yr ydym am ei gwblhau a nodi'r dangosyddion priodol	✔
Cam 3: Casglu gwybodaeth hunanwerthuso	✔
Cam 4: Dehongli'r data a dod i gasgliadau	✔

2.1 Cam 1: Nodi'r hyn sydd o dan sylw

2.1.1 Pryd i nodi'r hyn sydd o dan sylw.

Tasg:

Bwrw golwg o dan y colofnau'n dwyn y teitl 'Canlyniadau, Llinellau Sylfaen, a'r Mesurau Cynnydd' yng nghynlluniau gwreiddiol y prosiect Rhagori.

- A ydynt yn dal yn berthnasol?
- Sut mae'r prosiect yn dod yn ei flaen yn erbyn y canlyniadau a'r targedau hynny a fynegwyd?

Mae nodi'r materion y mae prosiectau Rhagori yn mynd i roi sylw iddynt a gosod amcanion priodol yn gamau pwysig yn y broses o gynllunio prosiect.

Oherwydd bod prosiectau Rhagori yn mynd rhagddynt yn barod, bydd penderfyniadau ynglŷn â'r hyn yr ydych chi am i'r prosiect ei gyflawni, ac unrhyw dargedau cysylltiedig, wedi eu cadarnhau eisoes a'u nodi yng nghynlluniau'r prosiect.

Serch hynny, mae'n bwysig adolygu'n rheolaidd y broses o osod amcanion. Bydd hyn yn gyfle i chi ailasesu eich blaenoriaethau, edrych yn fanwl ar gynnydd a sicrhau bod y prosiect ar drywydd y nod cyffredinol. Bydd hefyd yn gymorth i chi ddeall a mynegi nodau'r prosiect yn well.

Mae angen gosod amcanion clir er mwyn:

- cynnig cyfeiriad clir i'r prosiect y gellir seilio cynllun gwaith trylwyr arno;
- crynhoi diben y prosiect, er mwyn ennyn diddordeb a chefnogaeth unigolion a phartneriaid eraill;
- dangos dealltwriaeth o amcanion Rhagori yn gyffredinol a'r cysylltiadau â hwy;
- nodi'r hyn y bydd rhaid i chi ei fonitro a'i werthuso.

2.1.2 Sut mae datblygu amcanion clir?

Mae'r broses o sefydlu amcanion clir yn ymrannu'n ddau brif weithgaredd.

Gosod amcan cyffredinol: Dylai pob prosiect nodi amcan cyffredinol sy'n amlinellu diben y prosiect yn gyffredinol. Dylai hyn fod yn gysylltiedig ag amcan Rhagori o dargedu'r cysylltiadau rhwng anfantais a chyflawniad addysgol ymysg disgyblion ond dylai hefyd fod wedi ei addasu i'r prosiect(au) Rhagori yn eich ysgol chi.

Amcanion cydran benodol: Yna dylai pob prosiect nodi nifer fach o nodau neilltuol, neu 'amcanion cydran'. Dylai'r rhain fod yn gysylltiedig â ffactorau sy'n dylanwadu ar yr amcan cyffredinol a chanolbwyntio ar anghenion y disgyblion. Gallai enghreifftiau fod yn fwy o gymhelliad yn y dosbarth, rhagor o hunan-barch neu gyrhaeddiad gwell mewn profion yn yr ysgol.

Er mwyn nodi'r amcanion cyffredinol a chydran hyn, gallai fod o fudd i chi ddechrau trwy nodi'n glir y materion neu'r anghenion y mae'r prosiect yn ceisio rhoi sylw iddynt. Dylai hynny gynnig darlun clir o'r canlyniadau llwyddiannus y gallech chi eu disgwyl. Un dull o wneud hyn yw datblygu diagram ar lun 'achau teulu' fel yr un a welir isod. Mae'r ffigwr hwn yn enghreifftio dull o fapio ffactorau ac achosion sy'n ymwneud â'r prif fater neu angen yr ydych yn dymuno rhoi sylw iddo, a hynny o'r achos cychwynnol hyd at yr effaith terfynol, gan nodi'r un pryd yr hyn a allai fod yn rhwystrau neu'n achosion ar hyd y ffordd.

Diffiniad: Amcan

Amcanion yw'r pethau yr ydych chi am i'r prosiect eu cyflawni. Byddent yn gallu bod yn ddatganiadau ynglŷn â'r hyn y disgwylir i ddisgyblion y mae Rhagori wedi eu targedi fedru ei wneud, ei ddeall neu fod wedi ei ddysgu trwy fod yn rhan o'r prosiect, neu'r newid a ddymunir yn eu hymddygiad.



Cyngor 1 - Ni fydd modd i chi roi sylw i bopeth yr ydych yn gobeithio ei gyflawni trwy Rhagori. Felly, bydd angen i chi flaenoriaethu'r meysydd yr ydych yn neilltuo amcanion iddynt.

Cyflwynir y diagram hwn fel enghraifft gyffredinol. Gallai eich diagram chi fod yn wahanol iawn a chynnwys llawer mwy o gategorïau, llai ohonynt neu rai gwahanol. Mae mapio'r materion neu'r anghenion fel hyn yn rhoi syniad clir o'r meysydd y mae angen eu targedu er mwyn rhoi sylw i'r angen cyffredinol.

Mae'n bwysig ceisio cynnwys cymaint ag sy'n bosibl o fanylion perthnasol sy'n nodi'n glir y meysydd achos ac effaith sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prif angen neu broblem sydd i gael sylw. Mae mapio llwybr at y prif anghenion sydd i gael sylw fel hyn yn fodd i chi wedyn fel cydlynydd Rhagori neilltuo amcanion prosiect penodol i bob achos penodol a ddynodir.

Wedi i chi fapio'r materion, bydd angen wedyn i chi ddynodi a chytuno ar yr hyn a fyddai'n cael eu hystyried yn ganlyniadau llwyddiannus o ran rhoi sylw iddynt. Dylai disgrifio'r hyn a ystyrid yn llwyddiant eich tywys i ddatblygu amcanion clir. Yna mae modd atgynhyrchu'r diagram achau teulu gyda'r amcanion y cytunir arnynt ar gyfer y prosiect ym mhob bocs yn lle, neu ochr yn ochr â'r anghenion a'r achosion a ddynodir. Bydd hyn yn gymorth i chi osod sail glir i gynllunio a gwerthuso'r prosiect arni. Ar ben hyn, bydd yn fodd i fod yn glir am y cysylltiadau rhwng amcanion cydrannol a sylfaenol a dangos y modd y mae'r amcanion cydrannol yn cyfrannu at yr amcan cyffredinol. Mae'r diagram drosodd yn cynnig eglurhad syml o'r broses ar waith.



Mae'r diagram yn cynnig enghraifft syml o fap achos ac effaith sy'n amlinellu materion sy'n dylanwadu ar berfformiad disgyblion. Yn yr achos dychmygol hwn, mae'n bosibl bod ymchwil a phrofiad blaenorol yn yr ysgol wedi dangos dau brif achos i'r problemau ymddygiadol a'r presenoldeb isel - sef digalondid a diffyg sgiliau. Mae'r cyfuniad hwn wedi creu amgylchedd sy'n hyrwyddo diffyg presenoldeb ac ymddygiad gwael.

Wedi cwblhau'r ymarfer hwn, rydym nawr yn gallu gosod ein hamcanion trwy benderfynu pa ganlyniadau cysylltiedig â'r materion o dan sylw fyddai'n cael eu hystyried yn llwyddiannus.

Yn gyntaf, byddwn yn gosod ein hamcan sylfaenol neu gyffredinol, sef yn hyn o beth, gwella cyrhaeddiad disgyblion. Yn ail, byddwn yn gosod ein hamcanion cydrannol sef, yn yr enghraifft hon gwella ymddygiad a chynyddu presenoldeb. Yr amcanion cydrannol eraill yn yr enghraifft hon yw codi ysbryd y disgyblion a hybu eu llythrennedd a'u rhifedd.

Gellir cynnwys y rhain nawr yn ein diagram:

Cyngor 2 -
I osgoi dryswch, mae angen nodi'n glir weithiau yr hyn na fydd y prosiect yn ceisio ei wneud, yn ogystal â'r hyn y bydd yn ei wneud.



Amlinellu'n unig y mae'r diagram hwn yr amcanion cydrannol mwy cyffredinol sy'n rhoi sylw i'r materion a'r anghenion a ddynodwyd yn wreiddiol. Yn ymarferol, byddai'r diagram yn cynnwys hefyd amcanion mwy manwl, megis pa sgiliau fyddai'n cael eu gwella a sut. Fodd bynnag, byddai'r broses gysylltiedig yn adlewyrchu'n gyffredinol y rhai yr ymgymerwyd â hwy uchod.

Efallai y byddwch yn dymuno datblygu'r amcanion hyn trwy drafod gydag aelodau eraill o'r staff yn ogystal â rhai disgyblion, os yw hynny'n briodol. Dyma gwestiynau i arwain y drafodaeth honno.

Cwestiwn trafod	Wedi ei drafod gyda chydweithwyr?	Atebion
1. Beth fydd y prosiect yn ceisio ei gyflawni? (h.y. Beth yw ein hamcanion?) Pa olwg fydd ar lwyddiant? Efallai y byddwch yn dymuno ystyried yr ateb i'r cwestiynau hyn yn nhermau: • manteision i ddisgyblion unigol; • manteision i'r disgyblion sydd wedi eu targedu yn gyffredinol; • manteision mwy cyffredinol yn ymwneud o bosibl ag effeithiau mwy hirdymor ar lefel ysgol gyfan.	✔	
2. Sut mae'r amcanion hyn yn rhoi sylw i broblemau neu amcanion y disgyblion yr ydych wedi eu dynodi?	✔	
3. A yw ein hamcanion yn gyson â mentrau eraill yn yr ysgol ac o fewn nod cyffredinol Rhagori o dargedu'r cysylltiadau rhwng anfantais a chyrhaeddiad addysgol ymysg disgyblion?	✔	
4. A yw'r amcanion yn glir? A oes ganddynt gysylltiad agos â'i gilydd ac a ydynt yn atgyfnerthu ei gilydd?	✔	

Cwestiwn trafod	Wedi ei drafod gyda chydweithwyr?	Atebion
5. A oes tyndra posibl rhwng yr amcanion a ddatblygir? Os felly, sut fedrwn ni addasu amcanion y prosiect er mwyn eu gwneud yn fwy clir ac ategu ei gilydd?	✔	
6. A yw ein hamcanion yn ymarferol? A yw'n debygol y bydd gan yr ysgol y modd i gyflawni amcanion y prosiect yn yr amser a ragwelir?	✔	
7. Sut mae'r amcanion yn ymwneud â blaenoriaethau datblygu'r ysgol gyfan?	✔	
8. A oes digon o her yn ein hamcanion? A allai'r prosiect gyflawni mwy nag y mae'r amcanion hyn yn eu hawgrymu?	✔	
9. A allai dilyn yr amcanion hyn ddod ag effeithiau eraill yn ei sgil - cadarnhaol neu negyddol? Beth fydd y rhain yn debygol o fod?	✔	

Rhagor o wybodaeth ynglŷn â barnu llwyddiant eich prosiect Rhagori

Nod Rhagori yn y pen draw yw hybu lefelau cyrhaeddiad. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd gan eich prosiect amcanion mwy brys a thymor byr a fydd yn y pen draw yn dylanwadau ar lefelau cyrhaeddiad. Felly, gallai fod o fudd i chi ystyried gosod yr amcanion fesul camau. Dylai hyn fod yn gymorth i chi ystyried y cysylltiadau rhwng yr amcanion uniongyrchol, fel gwella presenoldeb, a'r nod terfynol o wella cyrhaeddiad.

Mae ffigwr 1 yn enghraifft sy'n adeiladu ar fframwaith o ganlyniadau canolradd a therfynol:

Ffigwr 1- Sbectrwm o ganlyniadau safonau gwell ar gyfer Rhagori

← Canolradd → ← Terfynol →

Presenoldeb Gwell	Mwy o Gymryd Rhan	Sgiliau Gwell ar gyfer Dysgu	Cyrhaeddiad Uwch
Cymryd *mwy* o ran mewn addysg (e.e. presenoldeb gwell)	*Ansawdd* y cymryd rhan wedi gwella (e.e. ymddygiad gwell, cymryd mwy o ran mewn dysgu)	Lefelau uwch o sgliau ar gyfer dysgu (e.e. gwell hunan-barch, sgiliau cyfathrebu gwell)	Cyrhaeddiad academaidd gwell (e.e. gwell sgoriau dangosyddion pynciau craidd)

Dylai deall y cysylltiadau rhwng eich prosiect(au) Rhagori, a nod y rhaglen Rhagori yn y pen draw, fod yn gymorth i chi osod eich amcanion (megis cynyddu presenoldeb neu wella ymddygiad) yn nghyd-destun nod ehangach y rhaglen (gwella cyrhaeddiad).

Mae'r camau hyn yn amlinellu amcanion uniongyrchol a mwy hirdymor y prosiect, sydd yn eu tro yn sail i'r dangosyddion perfformiad priodol (y bydd diffiniad ohonynt yn yr adran nesaf) y dylid eu datblygu. Er enghraifft, os yw gwella lefel yr ymwneud rhwng y disgybl(ion) o dan sylw a'r athro yn un o'r amcanion, yna'r dangosyddion perfformiad y dylid ei ddatlbygu, yn syml iawn, fyddai 'newid yn lefel ymrwymiad y disgyblion'. Dylid asesu lefel yr ymrwymiad felly yn nechrau'r prosiect, ei chofnodi drwyddo, ac asesu'r cynnydd yn y diwedd.

2.2 Cam 2: Bod yn eglur ynglŷn â'r hyn yr ydych chi am ei gyflawni: dynodi dangosyddion priodol

Diffiniad o'r Dangosyddion:

Mae dangosydd yn fodd i fesur rhywbeth. Mae 'Disgyblion yn dangos gwelliannau mewn rhifedd' yn fesur o weithio tuag at godi cyrhaeddiad.

Erbyn hyn, bydd gennych chi fap o faterion ac amcanion. Hwn yw eich rhestr chi o'r hyn yr ydych chi am ei gyflawni trwy brosiect(au) Rhagori. Bydd angen i'r dangosyddion perfformiad y byddwch yn eu dewis fesur yr amcanion yr ydych wedi eu gosod.

Unwaith y bydd amcanion prosiect wedi eu gosod, gallwch greu dangosyddion priodol a fydd yn fodd i chi gofnodi cynnydd a chynnig dulliau priodol o fesur llwyddiant eich prosiect.

2.2.1 Pam creu dangosyddion perfformiad?

Mae dangosyddion perfformiad yn fodd i ni gael:

- y dulliau sydd eu hangen ar gyfer hunanwerthuso prosiect parhaus;
- dealltwriaeth well o brosesau'r prosiect yn ogystal â chanlyniadau'r prosiect;
- mesur llwyddiant prosiect sy'n rhoi ystyriaeth briodol i anghenion a dyheadau'r disgyblion;
- dealltwriaeth well o lwyddiannau 'meddal'[1] y prosiect;
- meini prawf eglur ar gyfer mesur llwyddiant y prosiect.

Cyngor 3 - Mae'n bwysig asesu a oes modd casglu gwybodaeth berthnasol i'r dangosyddion yr ydych chi wedi eu dewis yn yr un modd ar ddau achlysur gwahanol. Os nad oes, efallai y bydd angen adolygu eich dewis o ddangosyddion neu ddatblygu dulliau eraill o gasglu.

Mae cymaint o amrywiaeth yn y dulliau gweithredu y mae ysgolion wedi eu dilyn wrth ddefnyddio cyllid Rhagori fel bod llunio dangosyddion i Gymru gyfan yn amhosibl. Felly, nid oes modd i'r arweiniad hwn ragnodi dangosyddion sy'n addas i bawb a phopeth. Fodd bynnag, mae'n hollol angenrheidiol serch hynny eich bod yn gwerthuso'n drylwyr ac yn drefnus y modd y mae Rhagori yn gweithio yn eich ysgol chi. Bydd datblygu dangosyddion yn gymorth i chi lunio eich gwerthusiad.

2.2.2 Beth yw dangosyddion?

Mae dangosyddion yn fesurau y gellir eu defnyddio i benderfynu llwyddiant a dilysrwydd mwy cyffredinol prosiect, o ran ei ddull o weithredu a'r hyn y mae'n ei gyflawni. Maent yn fodd i ni ddod i farn ar sail yr wybodaeth sy'n 'dangos' canlyniadau'r prosiect.

1 Mae canlyniadau meddal prosiect yn ymwneud ag ymddygiad, agweddau a phrofiadau. Enghraifft o hyn yw bod cymhelliad neu hyder y disgyblion yn gwella.

Cyngor 4 - Ceisiwch gymhwyso dangosyddion yn erbyn pob amcan, hyd yn oed os nad yw'r dangosyddion i'w gweld yn amlwg neu'n gadarn bob tro. Cofiwch mai nod y gwerthuso yw bod yn ddefnyddiol a rhoi gwybodaeth. Os oes modd cynnig dehongliad call a rhesymegol o'r wybodaeth a gesglir mewn modd a fydd yn cyflwyno gwybodaeth er mwyn i chi ddeall pa mor dda y mae'r prosiect yn cyflawni, yna mae diben i'r wybodaeth honno. Gwell yw bod â dangosyddion nad ydynt yn gadarn na dim dangosyddion o gwbl a bod rhaid i chi felly ddibynnu ar ddyfalu neu dybio er mwyn gwerthuso eich prosiect.

2.2.3 Sut mae gosod dangosyddion?

Ystyriwch yr hyn y mae pobl eraill fel arolygwyr neu werthuswyr allanol, cydweithwyr a rhieni yn fwyaf tebygol o'i ofyn am y prosiect Rhagori a'r hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni (ei amcanion). Wedi gwneud hyn, dylech ofyn pa dystiolaeth fydd ei hangen arnoch er mwyn ateb y cwestiynau hyn a sut mae casglu a chyflwyno tystiolaeth o'r fath. Bydd yr atebion yn sail i'r dangosyddion y byddwch yn eu datblygu.

Wedi i chi osod eich dangosyddion perfformiad, bydd rhaid i chi ystyried sut mae casglu gwybodaeth a thystiolaeth sy'n berthnasol iddynt. Dylai'r modd y gellir casglu gwybodaeth gael ei ystyried hefyd wrth ddewis eich dangosyddion perfformiad. Mae'n bwysig eich bod yn dewis dangosyddion perfformiad y mae'n ymarferol i chi eu cofnodi. Os nad ydych yn gallu casglu gwybodaeth briodol ynglŷn â'ch dangosyddion, yna bydd rhaid i chi ddewis dangosyddion eraill yn eu lle.

Er enghraifft, lle bynnag y bydd arnoch chi eisiau mesur newid, mae'n bwysig eich bod yn datblygu dangosyddion perfformiad sy'n gallu rhoi prawf ar amodau cyn ac wedi, gan ddefnyddio'r un dull o brofi. Enghraifft o hyn fyddai mesur newidiadau mewn hunanhyder. Byddai'n rhaid i chi ofyn yr un cwestiynau neu wneud yr un math o ymarfer arsylwi cyn (neu o leiaf y cyfle cyntaf yn ystod) ac wedi'r prosiect Rhagori.

2.2.4 Heriau wrth osod dangosyddion

Agweddau eraill y bydd rhaid i chi eu hystyried:

A oes gennym yr amser, y sgiliau a'r adnoddau eraill sydd eu hangen i gasglu, cofnodi, dadansoddi a rhoi adroddiad ar yr holl ddangosyddion perfformiad yr ydym wedi'u nodi?	✔
A oes gennym y sgiliau, y profiad a'r offer sydd eu hangen i ddilyn yr holl weithdrefnau casglu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r dangosyddion yr ydym wedi eu dewis? (Mae rhai dulliau, megis arsylwi grŵp a chyfweliadau wyneb yn wyneb, yn gofyn am sgiliau arbenigol; mae'n rhaid talu am rai offer masnachol.)	✔

A yw'r un ddealltwriaeth gan bob un ohonom o'r dangosyddion perfformiad sydd i'w defnyddio wrth werthuso ein prosiect? ✔

A yw'r hyn sydd i'w fesur neu ei gyfrif yn hollol eglur? ✔

2.2.5 Gosod dangosyddion yn ymarferol - Dangosyddion posibl ar gyfer prosiectau Rhagori

Yn ddibynnol ar yr hyn sydd o dan sylw gan eich prosiect, bydd gwahanol fathau o ddangosyddion yn addas ac yn ddefnyddiol. Mae rhestr fer yn dilyn o'r dangosyddion perfformiad y gellid eu hystyried ar gyfer gwerthuso llwyddiant Rhagori tros gyfnod yn eich ysgol.

Prif Ffocws y Prosiect Rhagori	Dangosydd(ion) Enghreifftiol	Nodiadau
Rhifedd a Llythrennedd	Mwy o ddisgyblion yn cyrraedd lefelau priodol mewn mathemateg neu ddarllen ac ysgrifennu o ganlyniad i ymyriad Rhagori	Mae llawer o brosiectau Rhagori yn canolbwyntio ar wella sgiliau sylfaenol. Gellid defnyddio canlyniadau cyfnodau allweddol lle bo hynny'n briodol ar gyfer carfan fach o ddisgyblion. Gallai mesuriadau yn erbyn y dangosydd fod yn fodd hefyd i gymharu rhwng disgyblion Rhagori ac eraill nad ydynt gyda Rhagori, a'r un modd gellid gwneud cymhariaeth rhwng disgyblion a grwpiau o ddisgyblion a blynyddoedd blaenorol yn yr ysgol.
Presenoldeb ac Ymrwymiad	Mae disgyblion sydd wedi bod yn rhan o ymyriad Rhagori yn dangos gwelliant yn eu presenoldeb. Mae disgyblion sydd wedi bod yn rhan o ymyriad Rhagori yn cael eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol yn llai aml.	Gyda llawer o brosiectau, bydd gwelliant yng nghyfranogiad disgyblion yn fesur o lwyddiant ynddo'i hun. Mae cyfraddau presenoldeb yn hawdd eu casglu ac, o'u cymharu gyda dangosyddion eraill, nid oes oedi rhwng yr ymyriad a'i fesur. Dylai gwybodaeth gwaelodlin ynghylch presenoldeb disgyblion fod ar gael hefyd. Byddai hyn yn goresgyn y broblem o gasglu data o'r cyfnod cyn cyflwyno cynllun Rhagori. Fel gyda phresenoldeb, bydd gwaharddiadau hefyd yn gymorth o ran cynnig mesur o welliant yng nghyfranogiad ac ymddygiad disgyblion.

Prif Ffocws y Prosiect Rhagori	Dangosydd(ion) Enghreifftiol	Nodiadau
Cyfoethogi a'r Cwricwlwm Ehangach	Mae disgyblion sydd wedi bod yn rhan o ymyriad Rhagori yn dangos tystiolaeth eu bod yn cymryd mwy o ran mewn gweithgareddau dosbarth ac allgyrsiol.	Lle mae'r prosiect Rhagori yn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau meddal yn hytrach nag ar gyrhaeddiad yn uniongyrchol, bydd angen gofal er mwyn sicrhau y bydd y dangosyddion yn fodd i chi weld newidiadau meddalach neu fwy cynnil mewn disgyblion. Gallai dangosyddion fod yn seiliedig ar arsylwadau rheolaidd wedi eu recordio gan diwtor, cynnydd yn erbyn set o feini prawf arbennig neu hunanasesiad strwythuredig/holiadur wedi ei hwyluso y byddai'r disgybl neu'r athro yn ei lenwi. Mae llawer o enghreifftiau o ddulliau mesur sydd wedi eu datblygu'n fasnachol, y mae ysgolion eisoes yn defnyddio llawer ohonynt, yn ogystal â rhai wedi eu datblygu'n fewnol gan ysgolion er mwyn monitro cynnydd (gwelwch yr adran nesaf).
Grwpiau Rhoi Magwraeth	Mae disgyblion sydd wedi bod yn rhan o ymyriad Rhagori yn dangos tystiolaeth bod ganddynt fwy o hyder a hunan-barch.	Fel uchod, gallai dangosyddion fod yn seiliedig ar arsylwadau tiwtor neu unrhyw un o nifer o ddulliau mesur sydd wedi eu datblygu (gwelwch yr adran nesaf).
Trosglwyddo	Mae disgyblion sydd wedi bod yn rhan o ymyriad Rhagori yn dangos tystiolaeth bod ganddynt fwy o hyder a hunan-barch.	Fel uchod, gallai dangosyddion fod yn seiliedig ar arsylwadau tiwtor neu unrhyw un o nifer o ddulliau mesur sydd wedi eu datblygu (gwelwch yr adran nesaf).

Prif Ffocws y Prosiect Rhagori	Dangosydd(ion) Enghreifftiol	Nodiadau
Cysylltiadau Teuluol/Cartref gyda'r Ysgol	Mae partneriaeth gadarnach rhwng staff a rhieni/ gofalwyr.	Lle mae'n berthnasol, gellid cyfeirio'r dangosyddion tuag at effaith Rhagori y tu allan i'r ysgol. Gallai hyn gynnwys newidiadau dangosadwy yng nghyfranogiad y rhieni, grwpiau cymunedol neu gysylltiadau eraill gyda'r gymuned.
Cymorth Ymddygiad	Mae disgyblion sydd wedi bod yn rhan o ymyriad Rhagori yn cael eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol yn llai aml.	Gallai monitro newidiadau yn nifer y gwaharddiadau fod yn gymorth o ran cynnig mesur o welliant yng nghyfranogiad disgyblion, ymrwymiad ac ymddygiad.

Cyngor 5 - Os yw gweithdrefnau gwerthuso i'w gweld yn afresymol o anodd, efallai y byddwch yn llai tebygo o'u defnyddio. Os bydd angen, adolygwch neu gwtogi eich rhestr o ddangosyddion perfformiad, gan flaenoriaethu'r rhai a fydd yn cynnig yr wybodaeth fwyaf ystyrlon er mwyn sicrhau eich bod yn cynnal brwdfrydedd.

Mae'r enghreifftiau sydd wedi eu rhestru uchod yn cynnig cipolwg yn unig ar yr amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad y gellid eu datblygu ar lefel prosiect. Bydd eich dangosyddion yn dibynnu ar natur y gweithgareddau y mae eich prosiect Rhagori yn eu cefnogi. Y ffactorau pwysig yw bod y **dangosyddion yn adlewyrchu prif amcanion** y prosiect a'r wybodaeth a **bod modd casglu data sy'n berthnasol iddynt**.

Wedi ymgymryd â'r broses sydd wedi ei hamlinellu uchod gallai fod o fudd i chi gofnodi eich amcanion a'r dangosyddion perfformiad cysylltiedig mewn tabl tebyg i'r un sydd wedi ei amlinellu drosodd. Bydd hyn yn cynnig sail glir y gellir ymgymryd â'r prosesau casglu a dehongli data arni.

Amcan neu Ddangosydd Perfformiad	Elfennau Data	Ffynhonnell (Ffynonellau) Data	Dull o Gasglu	Pwy?	Prif Ddyddiadau
Disgrifiwch eich amcan a'r maes sydd i'w ymchwilio ynghyd ag unrhyw ddangosyddion perfformiad.	Rhestrwch yr amrediad o dystiolaeth y byddwch yn eu defnyddio yma.	Rhestrwch yr ffynonellau posibl ar gyfer y data hynny e.e. data Ymddiriedolaeth Deuluol Fischer, sgoriau Prawf Medrau Gwybyddol CAT), arsylwadau.	Rhestrwch yr dull neu'r dulliau sydd i'w defnyddio i gasglu'r data hyn.	Person i gasglu'r data.	Prif gerrig milltir.

2.3 Cam 3: Casglu gwybodaeth hunanwerthuso

Roedd yr adran flaenorol yn amlinellu materion i'w hystyried wrth ddatblygu dangosyddion perfformiad priodol. Mae'r adran hon yn egluro sut i gasglu tystiolaeth yn erbyn y dangosyddion hynny ar gyfer eich gwerthusiad.

Mae'n debygol y byddwch yn casglu ffynonellau cynradd ac eilaidd. Mae data cynradd yn wybodaeth newydd y byddwch yn ei chasglu ar holiaduron Rhagori (e.e. profion ad hoc, holiaduron ar arsylwadau); ond mae data eilaidd yn ddata sy'n bodoli eisoes ac sydd wedi eu casglu fel canlyniadau i asesiad yr ysgol neu gyrhaeddiad blaenorol.

Wrth benderfynu ar y ffynonellau gorau o wybodaeth, bydd rhaid i chi ateb y cwestiynau canlynol:

Cwestiwn Trafod	Wedi ei drafod gyda chydweithwyr?	Atebion
Pa ffynhonnell sy'n debygol o roi'r wybodaeth gywiraf?	✔	
Pa mor gywir y mae arnoch chi angen i'r wybodaeth fod?	✔	
Pa ffynhonnell yw'r lleiaf drud neu sy'n gofyn lleiaf o amser?	✔	
A yw'r ysgol eisoes yn casglu a chofnodi data addas y gellid eu defnyddio?	✔	

Cwestiwn Trafod	Wedi ei drafod gyda chydweithwyr?	Atebion
A yw'r ysgol eisoes yn casglu a chofnodi data addas y gellid eu defnyddio?	✔	
A fydd casglu gwybodaeth o ffynhonnell arbennig yn ormod o faich ar unrhyw un?	✔	
A oes modd i chi fynd at y ffynonellau? (Er enghraifft gallai rhai dogfennau fod yn gyfyngedig neu'n gyfrinachol.)	✔	
A yw'r sgiliau gennych i fynd at y ffynonellau? (Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen cyfwelwyr gyda sgiliau arbenigol ar rai grwpiau targed arbennig.)	✔	
Pa ddata a allai fod yn ddefnyddiol hefyd ar gyfer gofynion eraill? (Er enghraifft arolygiadau Estyn, adolygiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru.)	✔	

Cyngor 6 - Efallai na fyddwch yn dymuno gwerthuso pob agwedd ar y prosiect. Efallai bod hyn i'w weld yn amlwg ond mae casglu gormod o'r wybodaeth anghywir yn un o'r camgymeriadau mwyaf cyffredin gyda gwerthuso!

Y prif fathau o ddulliau a deunyddiau casglu data y mae'n debygol y byddwch yn eu defnyddio yw:

- canlyniadau profion disgyblion a data asesiadau eraill
- cyrhaeddiad blaenorol disgyblion
- data monitro ac olrhain yr ysgol
- data disgyblaeth a gwaharddiadau
- arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth
- ymchwil weithredol
- cofnodion presenoldeb
- holiaduron disgyblion
- cyfweliadau wyneb yn wyneb gyda disgyblion neu gyfweliadau grŵp ffocws (un ai strwythuredig neu led strwythuredig)
- ffurflenni arsylwi neu restrau gwirio i'w defnyddio i asesu ymddygiad disgyblion, eu hagwedd neu eu hyder
- dulliau arsylwi eraill, megis fideo neu ddogfennau clyw.

Nid yw hon yn rhestr derfynol, ac nid yw'r un dull yn fwy addas nag un arall. O ystyried yr ystod o brosiectau Rhagori, gallai amrediad o ddulliau gwerthuso fod yn addas. Defnyddiwch ba offer bynnag sy'n addas i amgylchiadau eich ysgol chi.

2.3.1 Cipio tystiolaeth o ganlyniadau meddal

"Mae canlyniadau fel gwell hunan-barch, a phobl ifanc yn cymryd mwy o ran fel dinasyddion gweithgar, yn gallu bod yn ddangosyddion pwysig o lwyddiant"

Dogfen gyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru 'Ymestyn Hawliau'

Mae rhai mathau o dystiolaeth o ganlyniadau yn hawdd eu casglu a'u mesur, megis canlyniadau profion neu ffigurau presenoldeb. Fodd bynnag, mae canlyniadau eich prosiect Rhagori yn gallu cynnwys unrhyw dystiolaeth sydd wedi ei chofnodi o newid mewn ymddygiad y gellir ei briodoli i Rhagori. Mae hyn yn golygu y dylid hefyd ystyried canlyniadau 'meddalach' megis gwelliant mewn hyder, ymddygiad neu hunan-barch, yn fesurau gwerthfawr o effaith. Fodd bynnag, mae mesur deilliannau meddal yn gofyn yn aml am broses fanylach gyda mwy o alw am adnoddau na'r mesurau caled a mwy traddodiadol o allbwn neu broses.

2.3.2 Y Broses Werthuso: Offer y gallech chi ddymuno eu defnyddio

Mae'r adran hon yn amlinellu rhai o'r deunyddiau sy'n ceisio cipio tystiolaeth o ganlyniadau meddal ymysg plant a phobl ifanc. Mae rhai o'r rhain wedi eu datblygu'n fasnachol, ond mae eraill wedi eu datblygu gan wahanol gyrff cyhoeddus. **Nid yw'r llawlyfr hwn yn ceisio cymeradwyo neu werthuso effeithiolrwydd unrhyw un o'r modelau, dim ond cynnig syniad o rai o'r mathau o offer sydd ar waith ar hyn y bryd yng Nghymru a thu hwnt**. Ar ben hynny, nid yw'r rhestr hon yn cynnwys popeth ac mae nifer o ddulliau perthnasol eraill o weithredu a dogfennau eraill nad oes sôn amdanynt yma.

Mae'n bosibl bod eich ysgol eisoes yn defnyddio (neu'n gyfarwydd â) rhai o'r deunyddiau hyn neu efallai eich bod y defnyddio dulliau tebyg i gasglu tystiolaeth o lwyddiant. Fel arall, efallai eich bod wedi datblygu dulliau mwy priodol yn fewnol, wedi eu llunio'n arbennig ar gyfer anghenion eich ysgol a phrosiect Rhagori. Nid yw'r dewis o ddeunyddiau a ddisgrifir isod yn ddeddfol - dylai eich dewis o ddeunyddiau weddu i'r amcanion neu'r dangosyddion yr ydych chi wedi eu gosod i chi eich hunain.

Mae'n bwysig ystyried hefyd ei bod yn annhebygol y bydd un dull o weithredu yn addas i bob un o brosiectau Rhagori. Efallai eich bod yn gwybod am ysgolion eraill sydd eisoes yn defnyddio un

o'r deunyddiau hyn neu sydd wedi datblygu eu dulliau eu hunain o fesur canlyniadau. Nid yw hyn yn golygu y bydd eu dull hwy o weithredu yn addas i'ch anghenion chi.

Y Mynegai Datblygiad Cynnar Awstralaidd *(The Australian Early Development Index)* **(AEDI)**

Mae'r Mynegai Datblygiad Cynnar Awstralaidd yn offeryn sydd wedi ei addasu o fodel cynnar o Ganada, a ddatblygwyd gan Ganolfan Astudiaethau Plant Offord, Prifysgol McMaster, Ontario. Disgrifir yr AEDI fel 'mesur cymunedol o ddatblygiad plant ifanc, yn seiliedig ar y sgoriau o restr wirio y mae athrawon yn ei llenwi sy'n cynnwys tros 100 o gwestiynau'[2]. Mae'r AEDI yn mesur cynnydd ar draws pump o feysydd sy'n adlewyrchu gwahanol agweddau ar ddatblygiad plant. Sef:

- Iechyd a lles corfforol
- Gallu cymdeithasol
- Aeddfedrwydd emosiynol
- Iaith a sgiliau gwybyddol
- Sgiliau cyfathrebu a gwybodaeth gyffredinol.

Yn Awstralia, defnyddir yr offeryn i sefydlu mesur sylfaenol ar gyfer plant yn ystod eu blwyddyn gyntaf yn yr ysgol. Mae'r athrawon yn llenwi rhestr wirio o gwestiynau o dan bob maes yn seiliedig ar arsylwadau o'r plentyn. Mae enghreifftiau isod o'r math o agweddau a asesir:

Iechyd a lles corfforol

- Sgiliau echddygol bras a manwl
- Dal pensil
- Rhedeg ar y buarth
- Cydlyniad echddygol
- Digon o egni ar gyfer gweithgareddau'r ystafell ddosbarth
- Annibyniaeth wrth ofalu am eu hanghenion eu hunain
- Sgiliau byw bob dydd

2 Gweler www.rch.org.au/australianedi

Gallu cymdeithasol

- Chwilfrydedd ynglŷn â'r byd
- Awydd rhoi cynnig ar brofiadau newydd
- Gwybodaeth o safonau ac ymddygiad derbyniol mewn lle cyhoeddus
- Gallu rheoli eu hymddygiad eu hunain
- Parch priodol at awdurdod oedolion
- Cydweithrediad gyda phobl eraill
- Dilyn rheolau
- Gallu chwarae a gweithio gyda phlant eraill

Aeddfedrwydd emosiynol

- Gallu myfyrio cyn gweithredu
- Cydbwysedd rhwng gormod o ofn a bod yn rhy fyrbwyll
- Gallu ymdopi â theimladau ar lefel briodol i'r oedran
- Ymateb yn empathig i deimladau pobl eraill

Iaith a sgiliau gwybyddol

- Ymwybyddiaeth o'r broses ddarllen
- Sgiliau darllen ac ysgrifennu priodol i'r oedran
- Sgiliau rhifedd priodol i'r oedran
- Chwaraeon bwrdd
- Gallu deall agweddau tebyg a gwahaniaethau
- Gallu cofio ac adrodd yn ôl ddarnau penodol o wybodaeth

Sgiliau cyfathrebu a gwybodaeth gyffredinol

- Sgiliau i fynegi anghenion a gofynion mewn dulliau cymdeithasol addas
- Defnyddio iaith yn symbolaidd
- Adrodd hanes
- Gwybodaeth briodol i'r oedran am fywyd a'r byd o amgylch.

Mae'r AEDI yn nodi nad oes modd ei ddefnyddio fel offeryn i 'adlewyrchu perfformiad yr ysgol neu ansawdd yr addysgu', ond y gellir ei ddefnyddio i 'gynnig llinell sylfaen ar gyfer mesur newid yn natblygiad plant dros amser'.

Prawf Medrau Gwybyddol 3 (CAT3)

Mae Profion Medrau Gwybyddol yn offeryn asesu cyfrifiadurol a ddatblygwyd gan NFER-Nelson[3] i roi prawf ar, a deall, medrau rhesymu, potensial disgybl a dulliau dysgu ymysg disgyblion rhwng 7 ac 17 oed. CAT3 yw fersiwn ddiweddaraf y prawf a gellir ei ddefnyddio i asesu medrau rhesymu mewn tri maes neu 'gyfres, sef:

- **Rhesymu Geiriol**

Mae hyn yn rhoi prawf ar alluoedd plant i ddefnyddio cysyniadau geiriol. Mae hyn yn cynnwys geirfa, gorffen brawddegau, dosbarthiad geiriol a chyfatebiaethau geiriol. Mae hwn yn brawf da ar gyfer mesur a rhagweld cynnydd addysgol.

- **Rhesymu Meintiol**

Mae hyn yn rhoi prawf ar alluoedd plant mewn perthynas rhif, cyfres rhif ac adeiladu hafaliad. Rhesymu meintiol ynghyd â rhesymu geiriol yw yr hyn y mae llawer yn ei alw'n "allu academaidd".

- **Rhesymu Aneiriol**

Mae hyn yn rhoi prawf ar allu plant i drin perthnasau nad ydynt yn cael eu mynegi mewn geiriau nac mewn rhifau. Mae rhesymu aneiriol yn mesur gallu sy'n llai dibynnol ar addysg ffurfiol yr ysgol. Mae'n debygol bod plentyn sy'n sgorio'n uchel yn y prawf hwn, ond yn isel mewn rhesymu geiriol a meintiol, yn tangyflawni yn amgylchedd yr ysgol.

Mae NFER-Nelson yn nodi bod oddeutu dwy ysgol o bob tair yn y DU eisoes yn defnyddio'r offeryn a bod rhai o'r ysgolion sydd wedi cyflwyno cynlluniau ar gyfer prosiectau Rhagori wedi nodi y byddant yn defnyddio sgoriau CAT i asesu effaith eu prosiectau. Mae'n debygol felly y bydd rhai ysgolion yn gallu defnyddio profion CAT i ddarparu gwybodaeth linell sylfaen ar sgiliau meddal ar gyfer rhai o'r disgyblion sydd wedi eu targedu gan y prosiect.

3 Gweler http://www.nfer-nelson.co.uk/education/resources/cat3/cat3.asp

Teulu systemau monitro Yellis, MidYIS a PIPS

Mae'r profion hyn o'r Ganolfan Cwricwlwm, Gwerthuso a Rheoli ym Mhrifysgol Durham, yn cynnig llinell sylfaen ar gyfer mesurau gwerth ychwanegol. Mae'r Holiadur Yellis ar gyfer gwybodaeth Blwyddyn 11*(**YE**ar **11** **I**nformation **S**ystem)*, er enghraifft, yn rhoi sylw i lawer o feysydd yn cynnwys agweddau tuag at yr ysgol, gwersi penodol a gwaith cartref, ansawdd bywyd ysgol, teimlo ofn yn yr ysgol, cefndir y cartref a chefnogaeth i addysg gan rieni/gofalwyr, cynlluniau gyrfa a dyheadau ar gyfer y dyfodol. Mae'n system fonitro gynhwysol ac mae'r profion wedi eu llunio i fesur, cyn belled ag sy'n bosibl, gallu a chymhwyster ar gyfer gwaith yn hytrach na chyflawniad.

Graddfa Rickter

Mae Graddfa Rickter yn offeryn asesu a gwerthuso y gall ymarferwyr ei ddefnyddio cyn, yn ystod ac wedi ymyriad i fesur y pellter a deithiwyd a chanlyniadau meddal a gyflawnwyd gan ddisgyblion, er enghraifft, trwy hyfforddiant neu addysg. Mae'r offeryn yn defnyddio graddfa symudol sy'n fodd i ymarferwyr a chleientiaid weithio gyda'i gilydd i asesu cynnydd y cleient ar draws nifer o feysydd/cwestiynau. Mae'r Raddfa Rickter yn cael ei defnyddio'n fynych gan weithwyr ieuenctid i asesu'r pellter a deithiwyd gyda phobl ifanc (gwelwch www.rickterscale.com). Dyma fanteision y Raddfa Rickter yn ôl y rhai sydd o'i phlaid:

- hawdd ei gweinyddu
- ymgysylltu â'r cleient ar unwaith
- helpu i oresgyn rhwystrau cyfathrebu
- cynhyrchu gwybodaeth o ansawdd mewn cyfnod byr o amser
- cynhyrchu proffil sydd ar gael ar unwaith er mwyn cynllunio camau
- cynnig gwybodaeth hyblyg ar gyfer asesu dechreuol, monitro a gwerthuso
- helpu i nodi cefnogaeth neu gymorth priodol
- hawdd ei haddasu i grwpiau neu anghenion cleientiaid gwahanol

Mae modd defnyddio'r offeryn ar gyfer nifer o feysydd (fframiau cyfeirio) sy'n cynnwys 'byrddau' ar gyfer: Bywyd, Ysgol, Cyffuriau/alcohol, Paratoi ar gyfer gwaith, Byw'n annibynnol, Diogelwch

cymunedol, Datblygiad cymdeithasol/personol a Chymhwysedd emosiynol. Ceir amlinelliad isod o'r cwestiynau y mae'r bwrdd ysgol yn eu cynnwys.

Bwrdd Ysgol

1. **Ysgol**
   Pa mor hapus ydych chi yn yr ysgol?
2. **Bwlio**
   Faint mae unrhyw fwlio yn yr ysgol yn effeithio arnoch chi?
3. **Perthynas**
   Pa mor hapus ydych chi gyda'ch perthynas â phobl eraill yn yr ysgol? Mae hyn yn gallu bod yn unrhyw berthynas y gallech chi feddwl amdano.
4. **Cartref**
   Pa mor hapus ydych chi gartref?
5. **Athrawon**
   Pa mor dda ydych chi'n meddwl eich bod yn tynnu ymlaen gyda'r athrawon yn yr ysgol?
6. **Straen**
   I ba raddau ydych chi o dan straen yr adeg yma yn eich bywyd?
7. **Hyder**
   Pa mor hyderus ydych chi ynglŷn â'ch dyfodol?
8. **Iechyd**
   Pa mor hapus ydych chi gyda chyflwr eich iechyd?
9. **Alcohol/Cyffuriau**
   Faint y mae alcohol neu gyffuriau yn rhan o'ch bywyd? Mae hyn yn gallu bod yn unrhyw beth yr ydych chi'n meddwl eu bod yn gyffuriau fel meddyginiaeth neu sigaréts.
10. **Hapusrwydd**
    Pa mor hapus ydych chi'r adeg yma yn eich bywyd?

Mae'r Raddfa Rickter yn cael ei defnyddio'n fynych yng Nghymru gan weithwyr ieuenctid a sefydliadau megis Gyrfa Cymru, er eu bod hefyd wedi datblygu eu hofferyn asesu sgiliau meddal eu hunain (gyda chymorth y Raddfa Rickter) y mae disgrifiad ohono isod.

Offeryn Ardrawiad! Gyrfa Cymru

Mae Gyrfa Cymru wedi datblygu offeryn asesu sgiliau meddal i fesur y canlyniadau y mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Porth Ieuenctid yn eu cyflawni. Mae'r Porth Ieuenctid ar waith ers 1999 ac mae'n tueddu i ganolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc o dan anfantais rhwng 16 a 25 oed (ond y rhai rhwng 16 ac 18 yn bennaf) sydd heb gymwysterau, neu nad ydynt efallai wedi bod yn bresennol yn yr ysgol. Yn aml, mae gan y bobl ifanc hyn lawer o rwystrau rhag dod yn ôl i fod yn rhan o bethau, fel problemau gyda chyffuriau, ymddygiad troseddol neu anghenion addysgol arbennig.
Roedd Gyrfa Cymru wedi mesur perfformiad y Porth Ieuenctid (a rhaglenni eraill) yn draddodiadol trwy fesur allbynnau (e.e. nifer y buddiolwyr, nifer y cyfarfodydd ymyrryd, cyrchfannau pobl ifanc ar ddiwedd y rhaglen) ond roeddent yn sylweddoli bod angen iddynt asesu sgiliau meddal a'r pellter a deithiwyd er mwyn cael darlun llawnach o effeithiau'r rhaglen.

Penderfynodd Gyrfa Cymru ddatblygu offeryn priodol ar gyfer asesu llwyddiant y Porth Ieuenctid. Oherwydd bod y rhan fwyaf o 6 chwmni Gyrfa Cymru yn gyfarwydd â Graddfa Rickter, comisiynwyd y cwmni i ddatblygu'r offeryn *'Ardrawiad!'*.
Y farn oedd nad y fethodoleg fwyaf priodol oedd y 'bwrdd' Graddfa Rickter, sydd wedi ei amlinellu uchod, oherwydd bod ar Yrfa Cymru eisiau i bobl ifanc hunanasesu effaith y Porth Ieuenctid gyda chyn lleied o gymorth ag sy'n bosibl gan hwylusydd. Mae'r offeryn *'Ardrawiad!'* yn y bôn yn arolwg byr iawn i fesur y pellter y mae'r person ifanc wedi ei deithio a llwyddiant y Porth Ieuenctid. Gwneir arolwg o bobl ifanc y tro cyntaf y maent yn dod i gysylltiad gyda'r Porth Ieuenctid, ar ganol ac ar ddiwedd eu cyfnod gyda'r Porth Ieuenctid (fel arfer wedi 4/5 mis, ond weithiau hyd at 10 mis), pan fônt un ai mewn sefyllfa (e.e. swydd neu hyfforddiant) y maent yn fodlon arni neu pan nad ydynt efallai wedi cyflawni hynny ond yn fodlon eu bod wedi datblygu eu sgiliau'n digonol i chwilio am hynny eu hunain.

Mae'r offeryn *Ardrawiad!* yn rhoi 11 o ddatganiadau i bobl ifanc eu sgorio rhwng 1 a 5 i ddangos i ba raddau y maent yn cytuno gyda hwy. Mae'r bobl ifanc yn llenwi copïau papur o'r offeryn *'Ardrawiad!'* heb ysgogiad gan eu cynghorydd personol oni bai fod angen esbonio gair neu ymadrodd arnynt. Mae copi o'r offeryn *'Ardrawiad!'* i'w weld isod.



Deunyddiau a ddatblygir yn fewnol

Nid yw pob prosiect yn addas ar gyfer defnyddio'r deunyddiau masnachol hyn, ac nid oes angen hynny ychwaith. Mae rhestr isod o ddeunyddiau gwerthuso cyffredin y gallech chi eu defnyddio, gyda disgrifiad byr.

Dull	Diben Cyffredinol	Manteision	Heriau
Holiaduron ac Arolygon	Pan fydd arnoch chi angen gwybodaeth ar frys ac/neu'n rhwydd o grŵp mawr o ddisgyblion mewn modd nad yw'n fygythiol.	- gellir ei lenwi'n ddienw. - nid yw ei weinyddu'n gostus. - hawdd ei gymharu a'i ddadansoddi. - gallu cipio sampl fawr a chael llawer o ddata.	- efallai na fydd yn cynnig adborth gofalus. - anodd ei gynllunio. - amhersonol. - efallai y bydd angen arbenigwr samplo ar gyfer yr arolygon. - nid yw'n gweld y darlun llawn.

Dull	Diben Cyffredinol	Manteision	Heriau
Cyfweliadau	Pan fydd arnoch chi eisiau deall argraffiadau neu brofiadau rhywun yn llawn neu ddysgu mwy am eu hatebion i holiaduron.	- gallu cynnwys holl amrywiaeth a dyfnder gwybodaeth. - datblygu perthynas gyda'r cleient. - gallu bod yn hyblyg, yn dibynnu ar y disgybl.	- cymryd amser. - gallu bod yn anodd ei ddadansoddi a'i gymharu. - gallu bod yn ddrud. - cyfwelydd yn gallu camddehongli ymatebion disgybl.
Adolygu Dogfennau	Pan fydd arnoch chi eisiau syniad o'r modd y mae prosiect yn gweithio heb ymyrryd yn y prosiect. (Gallai gynnwys adolygiad o gyrhaeddiad blaenorol, cofnodion presenoldeb, canlyniadau asesiadau.)	- rhoi gwybodaeth gynhwysfawr a hanesyddol. - nid yw'n ymyrryd yn y prosiect nac yn nhrefn arferol y cleient yn y prosiect. - gwybodaeth yn bodoli'n barod. - dim llawer o dueddiadau ynghylch yr wybodaeth.	- yn drwm ar amser yn aml. - tebygol y bydd yr wybodaeth sydd ar gael yn anghyflawn. - angen bod yn eglur iawn ynglŷn â'r hyn yr ydych yn chwilio amdano. - nid yw'n ddull hyblyg o gasglu data; data wedi eu cyfyngu i'r hyn sy'n bodoli eisoes.
Dyddiadur Arsylwi	Pan fydd arnoch chi eisiau casglu gwybodaeth gywir am y modd y mae prosiect yn gweithio go iawn o ddydd i ddydd, yn enwedig ynglŷn â'r prosesau o'i fewn.	- sylwadau ar y modd y mae prosiect yn gweithio wrth i hynny ddigwydd. - gallu addasu ei hun i ddigwyddiadau wrth iddynt ddigwydd. - cofnodi arsylwadau wrth iddynt ddigwydd a fyddai fel arall yn mynd yn angof.	- mae dehongli ymddygiad a welir yn gallu bod yn anodd. - categoreiddio arsylwadau yn gallu bod yn gymhleth. - gallu dylanwadu ar ymddygiad pobl sy'n cymryd rhan mewn prosiect.

Dull	Diben Cyffredinol	Manteision	Heriau
Grwpiau Ffocws	Pan fydd arnoch chi eisiau edrych yn fanylach i mewn i brosiect trwy drafod gyda grŵp, e.e. ynghylch adweithiau i brofiad neu awgrym, deall cwynion cyffredin.	- cael argraffiadau cyffredin yn gyflym ac yn ddibynadwy. - gallu bod yn ddull effeithlon o gael amrywiaeth a dyfnder da o wybodaeth mewn cyfnod byr o amser. - gallu mynegi gwybodaeth allweddol am brosiectau.	- dadansoddi ymatebion yn gallu bod yn anodd. - angen hwylusydd da. - dod o hyd i'r amser yn niwrnod yr ysgol i drefnu'r grŵp.
Astudiaethau Achos	Pan fydd arnoch chi eisiau deall sefyllfaoedd yn drylwyr neu bortreadu profiadau disgyblion mewn prosiect, a gwneud archwiliad cynhwysol trwy draws-gymharu achosion.	- rhoi darlun cyflawn o brofiad disgyblion o fewnbwn, proses a chanlyniadau prosiect. - dull grymus o ddisgrifio'r prosiect i bobl o'r tu allan.	- angen llawer o amser fel arfer i gasglu, trefnu a disgrifio. - cynrychioli dyfnder gwybodaeth yn hytrach nag ehangder.
Ymchwil Weithredol *[Cylch o gynllunio, addysgu/ gweithredu, arsylwi a myfyrio sy'n cyfuno gweithredu ac ymchwil.]*	Dull o wneud hunanwerthuso yn rhan o weithgareddau bob dydd Rhagori yn hytrach na bod yn offeryn ynddo'i hun.	- modd sylwi ar welliannau posibl a'u rhoi ar waith ar unwaith.	- gall fod yn anodd i chi ymneilltuo o'r gweithredu a bod yn wirioneddol fyfyriol.

2.4 Cam 4: Dehongli'r data a dod i gasgliadau

Er mwyn gallu defnyddio'r data a gasglwyd, mae'n bwysig eich bod nawr yn gallu dehongli'r data'n effeithiol. Bydd hyn yn fodd i chi ffurfio barn ar ba mor dda mae'r rhaglen Rhagori yn gweithredu.

Mae'n rhaid gwneud hyn yn ofalus. Dyma'r cam gwerthuso, sydd fwyaf tebygol o gael ei esgeuluso neu ei danbrisio, gyda'r effaith mai cofnodi canlyniadau gwerthuso a wneir yn hytrach na throsi'r canlyniadau hyn yn wybodaeth ddefnyddiol. Nid oes angen i hyn fod yn waith hir a llafurus. Mae'r gweithgaredd hwn yn digalonni llawer o gydlynwyr prosiectau a gweithwyr, oherwydd eu bod yn credu'n anghywir nad oes ganddynt yr hyfedredd arbenigol i ddadansoddi'r wybodaeth. Gallai fod o fudd i chi weithio gyda chydweithwyr mwy profiadol wrth drin data. Fodd bynnag, mae'n bwysig eich bod chi ac unrhyw aelodau eraill o dîm prosiect Rhagori, yn chwarae rhan weithredol yn y broses o ddehongli, oherwydd mai dyma'r unig ffordd y byddwch chi'n dysgu'r gwersi gwerthfawr y mae arnoch chi eu hangen.

Er mwyn dehongli eich data bydd rhaid i chi drosi'r wybodaeth yr ydych chi wedi ei chasglu ynglŷn â'r dangosyddion perfformiad yn wybodaeth fuddiol ac ystyrlon. Mae pump o gamau sylfaenol y bydd rhaid i chi eu dilyn er mwyn trosi'r data fel hyn.

1. newid y data crai yn ddata cyfunol neu arolygon
2. gwirio a dadansoddi'r data
3. dehongli'r data
4. dod i'ch casgliadau a'ch gwersi
5. adrodd a rhannu'r canlyniadau (ac unrhyw enghreifftiau o lwyddiant ac arferion da)

2.4.1 Newid data crai yn ddata cyfunol neu drosolygon

Mae modd cyflawni hyn trwy wneud crynodeb ystadegol o'r data rhifol a gesglir. Er enghraifft, os byddwn yn dadansoddi ymatebion i sylwadau barn athrawon eraill ynglŷn â newidiadau mewn ymddygiad disgyblion, rydym yn gallu crynhoi'r data crai trwy nodi mai x% oedd yn credu bod gwelliant sylweddol; x% bod gwelliant; x% nad oedd newid ac x% yn credu bod dirywiad ac ati. Gallem hefyd grynhoi'r data yn y cam hwn trwy amlinellu niferoedd cyffredinol, e.e. cyfanswm nifer y disgyblion oedd yn cymryd rhan yn

y rhaglen; cyrhaeddiad cyfredol a chyfartaledd presenoldeb. Yna gellir cyflwyno'r rhain gydag unrhyw dargedau sydd wedi eu gosod yn erbyn y dangosyddion hyn.

Mae'n debygol y bydd gennych chi hefyd ddata ansoddol, megis eich sylwadau neu nodiadau o'r grwpiau trafod. Gellid crynhoi'r rhain trwy ddosbarthu neu glystyru ymatebion neu sylwadau o dan themâu neu eu dosbarthu'n ymatebion cadarnhaol a negyddol. Cyfeiriwch yn ôl at y materion y gwnaethoch chi eu dynodi yng ngham cyntaf yr arweiniad hwn er mwyn eich cynorthwyo i ddosbarthu canlyniadau'r data ansoddol.

Cyn belled ag sy'n bosibl, dylai'r cam hwn geisio cynnig crynodebau sy'n ymwneud â chanlyniadau a pherfformiad yn erbyn targedau, yn ogystal â data monitro eraill.

2.4.2 Gwirio a Dadansoddi'r Data

Cyn gynted ag y byddwch chi wedi crynhoi'r data neu wedi dosbarthu'r wybodaeth o dan benawdau priodol, mae'n bwysig eich bod yn gwirio a dilysu'r wybodaeth.

Yn benodol, nodwch unrhyw faterion a allai ddylanwadu ar y canlyniadau, er enghraifft, y prosiectau eraill a oedd yn digwydd yn yr ysgol neu'r gymuned ac a oedd yr wybodaeth wedi ei chasglu'n bennaf yn ystod pwynt uchel neu isel o'r prosiect. Os felly, gallai safbwyntiau, mynegiant o farn a data eraill fod wedi eu gogwyddo i adlewyrchu'r amgylchiadau penodol hyn yn hytrach nag i'r prosiect yn gyffredinol. Gwyliwch hefyd am unrhyw fylchau yn y data ac unrhyw resymau dros berfformiad gwael neu dda ac unrhyw ffactorau allanol a allai fod wedi dylanwadu ar y canlyniadau.

Dylid gwirio fel hyn ym mhob cam o'r gwerthuso, er ei bod yn anochel y bydd rhai materion wedi mynd ar goll yn y cam hwn. Os daw materion fel y rhain i'r amlwg wrth i chi asesu'r data, bydd rhaid i chi sicrhau bod lle iddynt yn y dehongliad. Os gwelwch chi ddiffygion o bwys yn nilysrwydd y data yn y cam hwn, efallai y bydd angen i chi ddileu'r darn hwnnw o dystiolaeth o'r broses ddehongli.

2.4.3 Dehongli'r data

Cyn gynted ag y byddwch chi wedi crynhoi'r data ac wedi sicrhau eu bod yn ddilys, bydd modd i chi ddehongli'r wybodaeth yr ydych chi wedi ei chasglu. Er mwyn gwneud hyn, bydd rhaid i chi:

- chwilio am batrymau a themâu sy'n ymddangos;
- cynnig esboniadau arnynt.

Dyma'r cam lle bydd rhaid i chi edrych ar y data sydd wedi eu casglu ac ystyried a oes cysylltiadau achos ac effaith rhyngddynt, e.e. mae'n bosibl bod newid mwy pendant mewn ymddygiad wedi digwydd tua diwedd y prosiect oherwydd neilltuo mwy o amser i'r disgybl yn y cam hwn.

Cyngor 7-
Mae'n bwysig nad ydych yn ceisio dod i gasgliadau'n rhy gynnar yn y cam hwn. Mae'n rhaid i chi ddisgwyl hyd nes byddwch chi wedi casglu ynghyd ac ystyried yr holl amrywiaeth o ddehongliadau ac esboniadau a allai fod. Os methwch chi â gwneud hyn yna byddwch yn dod i gasgliadau cul nad ydynt yn adlewyrchu'r amgylchiadau i gyd.

2.4.4 Dod i Gasgliadau

Yn olaf, mae'n rhaid i ni ddod i gasgliadau!

Chi a ŵyr orau sut i benderfynu beth yw ystyr eich data. Bydd pob un o'r prosiectau yn wahanol iawn gydag amcanion gwahanol, data gwahanol a chanlyniadau gwahanol. Fodd bynnag, gallai'r syniadau canlynol fod yn fan cychwyn i chi.

Gallwch chi:

- ddisgrifio'r hyn a wnaethoch chi (neu'r ydych yn ei wneud), pwy a'i gwnaeth, a nodweddion a nifer y rhai fu'n cymryd rhan;
- cymharu'r wybodaeth hon gyda'ch cynllun gwreiddiol a gweld a oes gwahaniaeth rhwng yr amcanion a'r gweithredu ei hun;
- crynhoi'r dystiolaeth yr ydych wedi ei chasglu er mwyn dangos mantais Rhagori i ddisgyblion unigol neu'r grŵp i gyd;
- nodi'r rhesymau dros wahaniaethau rhwng yr amcanion roeddech chi wedi eu cynllunio, y gweithgareddau roeddech chi wedi eu cynllunio a'r canlyniadau roeddech chi'n eu disgwyl gyda'r hyn rydych chi wedi ei gyflawni mewn gwirionedd;
- nodi'r rhwystrau a gafwyd a'r ffactorau a wnaeth hwyluso neu gynorthwyo;
- nodi agweddau ar y prosiect a oedd yn gofyn mwy o sylw;
- nodi'r pethau yn y prosiect y dylech chi fod wedi rhoi llai o sylw iddynt neu ddod â hwy i ben.

Cyngor 8 - Os nad yw'r canfyddiadau wedi eu hysgrifennu, bydd yr wybodaeth a gafwyd o wneud y gwerthuso yn eich pen yn unig ac ni fydd y gwersi pwysig yn cael eu trosglwyddo i bobl eraill. Gallech chi symud ymlaen i swydd arall a bydd yr wybodaeth yn mynd gyda chi. Os oes dogfennaeth glir, yna bydd modd trosglwyddo'r wybodaeth.

2.4.5 Adrodd a rhannu'r canlyniadau

Bydd cofnodi eich canfyddiadau yn fodd i unigolion eraill (megis cydweithwyr yn eich ysgol a thu allan neu werthuswyr) adolygu eich canfyddiadau o'r gwerthuso a dysgu oddi wrth brofiad eich prosiect.

Diben yr adroddiad gwerthuso fydd:

- cofnodi profiad a llwyddiannau'r prosiect, i bobl yn y sefydliad ac eraill;
- crynhoi'r gwersi a ddysgwyd o'r profiad;
- creu llwyfan ar gyfer rhagor o waith datblygu;
- cefnogi neu ledaenu dull y prosiect o weithredu, y dulliau a fabwysiadwyd a'r offer a ddefnyddiwyd.

Chi fydd yn penderfynu strwythur a chynnwys yr adroddiad gwerthuso.

Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mynnu bod ysgolion yn dilyn unrhyw ffurf arbennig wrth gyflwyno eu hadroddiadau hunanwerthuso. Fodd bynnag, cynigiodd y templed a'r nodiadau cyfarwyddo canlynol i Awdurdodau Addysg Lleol eu defnyddio yn eu hysgolion, pe byddai eu hangen.

Adroddiad Hunan-Werthuso Tymhorol Rhagori

Enw'r Ysgol:	**Rhif yr Ysgol:**	**AALl**	**Tymor**

Cyflawniadau allweddol neu nodweddion cynnydd	Atalyddion neu rwystredigaethau arwyddocaol	Targedau neu nodau perthnasol

Astudiaeth achos (sy'n enghreifftio naill ai agwedd bositif neu heriol ar weithgaredd Rhagori hyd at heddiw)

Adroddiad Hunan-Werthuso Tymhorol Rhagori - Nodiadau Canllaw

Nid oes raid i ysgolion ddefnyddio'r templed gwerthuso hwn. Mae gan eich ysgol ei phroses hunan-werthuso ei hun eisoes. Felly, gallwch ddefnyddio'r trefniadau sy'n bodoli eisoes i werthuso'ch gweithgareddau Rhagori. Rydym yn cynnig y templed hwn i esbonio'r math o wybodaeth a fyddai'n ddefnyddiol i ni i werthuso menter Rhagori ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, rydym yn derbyn adroddiadau hunan-asesu ym mha ffurf bynnag sy'n gweddu orau i chi. Chi sydd i benderfynu a ydych am ddefnyddio'r templed i ysgrifennu'r adroddiad hunan-asesu sy'n ofynnol o dan amodau a thelerau grant Rhagori. Dylech gyflwyno'r adroddiad i'ch awdurdod lleol, yn hytrach na'n uniongyrchol i'r Cynulliad, pa un a ddefnyddir y templed hwn neu beidio.

Rydym wedi dylunio'r templed i'w ddefnyddio'n electronig. Gallwch newid maint y blychau fel nad oes rhaid i chi gyfyngu'ch sylwadau i'r lle sydd ar gael ar fersiwn brintiedig y templed. Fodd bynnag, nid oes yn rhaid darparu dogfen hirfaith chwaith.

Mae gan y templed bedair rhes ar gyfer sylwadau ond nid oes raid cadw at y nifer hwn. Gallwch ychwanegu, dileu neu anwybyddu rhesi yn ôl y gofyn.

Mae gan brif gorff y templed dair colofn. Yn y golofn gyntaf (ar y chwith), dylech nodi eich prif lwyddiannau chi a'r disgyblion o ganlyniad i weithgareddau Rhagori. Yn yr ail golofn (canol), dylech nodi'r prif broblemau sy'n parhau, er gwaethaf unrhyw lwyddiannau. Gallwch nodi'r pethau sydd heb weithio yn y modd yr oeddech yn disgwyl iddynt neu ffactorau sy'n eich rhwystro rhag gwneud eich gwaith. Gall y golofn hon fod yn agenda ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Sylwadau gwerthuso y dylid eu cynnwys yn flaenaf yn y ddwy golofn hyn. Dim ond er mwyn manylu ar sylwadau gwerthuso y dylid cynnwys unrhyw ddeunydd disgrifiadol.

Mae gan y drydedd golofn (ar y dde) ddau bwrpas. Yn gyntaf, i roi'r sylwadau yn y ddwy golofn flaenorol yn eu cyd-destun. Yn ail, er mwyn atgoffa'r ysgolion am yr amcanion a osodwyd ganddynt wrth gynllunio eu gweithgareddau Rhagori. Efallai eich bod wedi amlinellu ychydig o'r nodau hynny fel targedau mesuradwy. Fodd bynnag, efallai bod eich targedau yn ymwneud â materion, megis cynyddu'r ymroddiad i addysg neu wella

agweddau, sy'n bethau na ellir eu mesur drwy ddefnyddio dangosyddion perfformiad. Gallwch nodi'r ddau fath o darged neu nod yn y golofn hon.

Efallai nad oes angen cynnwys rhywbeth yn yr adran Astudiaeth Achos bob tymor. Fodd bynnag, rydym yn eich annog i ddarparu disgrifiadau cryno o'ch gwaith sy'n dangos unrhyw ddulliau effeithiol a ddefnyddiwyd gennych neu sy'n tynnu sylw at unrhyw heriau pellach sy'n parhau i fod yn broblem. Dyma'r cyfle i fod yn fwy disgrifiadol os ydych o'r farn bod angen hynny. Fodd bynnag, bydd y disgrifiadau mwyaf gwerthfawr hefyd yn cynnwys dadansoddiad gwerthuso o'r hyn yr ydych wedi ei wneud. Bydd y deunydd hwn yn werthfawr i'n hysbysu am arferion da a datblygiadau diddorol.

Cyngor 9 - Mae'n rhaid i chi fod yn ddewr i ddisgrifio methiannau eich prosiect yn onest. Dim ond trwy ddeall yr anawsterau cynnar hyn a dysgu oddi wrthynt y mae prosiectau yn llwyddo. Bydd ymarferwyr eraill yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddysgu oddi wrth eich heriadau chi!

Nid yw'r ffurflen hunanwerthuso hon yn orfodol a gallwch ei newid hi ar gyfer eich anghenion penodol eich hun neu ddilyn dull gwahanol o weithredu sy'n gysylltiedig â'r broses o hunanwerthuso ar gyfer gweithgareddau eraill. Efallai y byddwch yn dymuno cadw cofnod parhaol o gynnydd, neu roi ystyriaeth fesul tymor. Er mai'r unig beth y mae'n rhaid i chi ei wneud yw cyflwyno adroddiad hunanwerthuso bob blwyddyn i'ch AALl, mae telerau ac amodau'r grant yn mynnu bod dimensiwn tymhorol i bob adroddiad, sy'n olrhain cynnydd dros amser gyda mentrau Rhagori.

Pa fodd bynnag y byddwch yn dewis cofnodi eich canfyddiadau, argymhellir eich bod yn gwneud hynny mewn modd y bydd eich cydweithwyr yn gallu eu defnyddio, pe byddai angen arolwg o Rhagori arnynt, a bod y ddogfen yn fodd i chi dynnu allan yn hawdd y prif bwyntiau i'w crynhoi yn yr adroddiad hunanwerthuso blynyddol.

2.5 Crynodeb o'r Llawlyfr

Mae'r llawlyfr hwn wedi eich tywys trwy'r camau y dylech eu dilyn wrth werthuso eich prosiect(au) Rhagori yn eich ysgol. Yn y pedwar cam argymhellir eich bod yn:

Cyngor 10 - Cofiwch fod hunanarfarnu yn rhan o gylch o gynllunio. Mae'n debygol y bydd canfyddiadau eich gwerthuso yn amlygu problemau sy'n weddill neu anghenion nad ydynt wedi cael sylw, ac awgrymu efallai lwybrau buddiol i'w dilyn o ran gwaith yn y dyfodol. Defnyddiwch yr adroddiad gwerthuso yn fan cychwyn ar gyfer parhau i gynllunio a datblygu'r prosiect.



Fodd bynnag, ychydig iawn fydd gwerth y broses werthuso gyfan oni bai eich bod yn gweithredu ar sail yr wybodaeth a ddaw o ddadansoddi'r data a gesglir. Unwaith y bydd eich canfyddiadau a'ch casgliadau gennych chi, mae'n rhaid i chi ddysgu o'r broses yn gyffredinol. Dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol yw prif ddiben gwneud unrhyw waith gwerthuso, a thrwy ddysgu beth sy'n llwyddo ac yn methu, rydych yn gwneud penderfyniadau effeithiol ynglŷn â sut i wella'r prosiect Rhagori.